Centre of expertise on child sexual abuse

# Graddfa a natur y cam-drin plant yn rhywiol: Adolygu'r dystiolaeth

## Crynodeb gweithredol

Kairika Karsna a'r Athro Liz Kelly



**Argraffiad diwygiedig, Mehefin 2021**

# Crynodeb gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn dwyn ynghyd y dystiolaeth ddiweddaraf o arolygon a chofnodion swyddogol gan asiantaethau i bennu beth y gwyddom am raddfa a natur cam-drin plant yn rhywiol (CPRh) yng Nghymru a Lloegr a beth sydd yn dal yn y dirgel. Ei ddiben yw coladu'r dystiolaeth i un adroddiad a all lywio'r gwaith o ddatblygu gweithgareddau atal, tarfu ac adnabod cam-drin plant yn rhywiol. Mae hefyd yn tynnu sylw at y bylchau sy'n weddill yn y dystiolaeth, ac yn gwneud argymhellion ar sut i wella'r dull o gasglu data ar gam-drin plant yn rhywiol.

Cyhoeddwyd argraffiad cyntaf yr adroddiad fel ymarfer cwmpasu yn 2017, gyda'r bwriad o gyrraedd yr amcangyfrif gorau o raddfa CPRh yn ei holl ffurfiau yng Nghymru a Lloegr a disgrifio'r hyn a oedd yn hysbys o'i natur. Mae'r argraffiad hwn yn diweddaru'r sylfaen dystiolaeth hyd at Fawrth 2020, sef y dyddiad diweddaraf y mae data cenedlaethol ar gael ar ei gyfer. Felly, nid yw'n cwmpasu effeithiau posib pandemig COVID-19 ar natur a pha mor gyffredin yw CPRh, nac ychwaith ar allu asiantaethau i adnabod ac ymateb iddo. Bydd hyn yn cymryd blynyddoedd lawer i fod yn gwbl fesuradwy.

Mae'r adolygiad hwn yn dibynnu ar ddwy ffynhonnell wybodaeth: arolygon hunan-adrodd sy'n ceisio mesur nifer yr achosion o CPRh yn y boblogaeth, a nifer yr achosion o CPRh a nodwyd ac a gofnodwyd gan y gwahanol asiantaethau sy'n gweithio i fynd i'r afael â cham-drin.

## Yr hyn a wyddom o astudiaethau cyffredinrwydd

### *Graddfa cam-drin plant yn rhywiol*

Mae arolygon sy'n gofyn i gyfranogwyr am eu profiadau o CPRh yn gwahaniaethu yn y ffordd mae cam-drin rhywiol yn cael ei ddiffinio a phwy a sut maent yn gofyn amdano.

Daeth y ddau brif arolwg a gynhaliwyd yng Nghymru a Lloegr i gasgliad gwahanol iawn o amcangyfrifon faint o blant sy'n mynd drwy brofiad o CPRh; darganfu astudiaeth camdriniaeth plant NSPCC a gynhaliwyd yn 2009 bod 24.1% o oedolion a gymerodd ran yn disgrifio rhyw fath o brofiad o CPRh, ond dim ond 7.5% o ymatebwyr i'r modiwl cam-drin plant diweddaraf (2019) o fewn Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr (ATCL) a nododd brofiadau o CPRh. Roedd rhai gwahaniaethau allweddol yn y ffordd y cynhaliwyd yr arolygon:

- Roedd modiwl y ATCL yn gofyn cwestiynau am gamdriniaeth a ddigwyddodd cyn eu bod yn 16 oed, tra bod yr NSPCC yn gofyn am y profiadau hyn hyd at 18 oed. Dengys astudiaethau cenedlaethol fod nifer yr achosion o bron bob math o gam-drin rhywiol – gan oedolion, cyfoedion, teulu, cydnabod a dieithriaid – yn cynyddu gydag oed rhwng 15 ac 17, nad oedd yn cael ei ddangos yn yr ATCL.
- Tra bod astudiaeth camdriniaeth plant yr NSPCC yn arolwg pwrpasol ar gam-drin plant, roedd modiwl y ATCL yn gofyn cwestiynau am gam-drin ar ddiwedd arolwg ar drosedd. Canfuwyd bod arolygon sy'n canolbwyntio ar droseddu yn cynhyrchu amcangyfrifon is na'r rhai sy'n cael ei gynnwys o ran iechyd, lles neu brofiad rhywiol, gan fod pobl yn llai tebygol o ddatgelu profiadau o CPRh yng nghyd-destun gweithgarwch troseddol.

- Er bod modiwl y ATCL wedi gofyn i oedolion rhwng 18-74 i adrodd yn ôl-weithredol am eu profiadau o gamdriniaeth pan oeddent yn blant, dim ond plant ac oedolion ifanc a arolygwyd gan yr NSPCC er mwyn mesur nifer yr achosion mwy diweddar o gam-drin.

Gan ystyried yr amrywiadau mewn astudiaethau cyffredinrwydd ar gyfer Cymru a Lloegr, mae'r data'n awgrymu bod o leiaf 15% o ferched/menywod ifanc a 5% o fechgyn/dynion ifanc yn profi rhyw fath o gam-drin rhywiol cyn eu bod yn 16 oed, sy'n cynnwys cam-drin gan oedolion a phobl ifanc dan 18 oed.

## *Natur cam-drin rhywiol*

- Ymddengys bod cam-drin treiddiol yn llawer llai cyffredin na mathau eraill o CPRh, ond mae'n fwy tebygol o gael ei ailadrodd. Canfu astudiaeth camdriniaeth plant bod 4.5% o bobl ifanc rhwng 18-24 oed wedi dioddef ymosodiad rhywiol gan blentyn arall a 3.5% gan oedolyn. Yn y modiwl cam-drin plant ATCL, adroddodd 2% o'r cyfranogwyr brofiadau o drais neu gam-drin treiddiol yn eu plentyndod, gan blentyn arall neu oedolyn; gyda dros ddwy ran o dair ohonynt yn adrodd ei fod wedi digwydd mwy nag unwaith. Roedd profiadau o ffyrdd eraill o CPRh yn cael eu hadrodd yn amlach ym modiwl cam-drin plant ATCL: disgrifiodd 5.8% o gyfranogwyr gamdriniaeth cyswllt nad oedd yn dreiddiol, a 3.4% o gam-drin rhywiol digyswllt.
- Mewn arolygon, mae merched deirgwaith yn fwy tebygol na bechgyn o ddisgrifio profiadau o CPRh.
- Ymddengys bod rhai plant a phobl ifanc yn llawer mwy tebygol o gael eu cam-drin yn rhywiol na'r boblogaeth ehangach: ym modiwl cam-drin plant ATCL, roedd cyfranogwyr anabl ddwywaith yn fwy tebygol o ddisgrifio profiadau o CPRh na chyfranogwyr heb anabledd; roedd y rhai oedd wedi byw mewn cartref gofal bedair gwaith yn fwy tebygol o fod wedi cael profiad o CPRh o gymharu â rhai oedd heb fod mewn cartref gofal; ac roedd y rhai oedd wedi profi esgeulustod yn ystod eu plentyndod bum gwaith yn fwy tebygol o fod wedi profi CPRh na'r rhai nad oedd wedi profi esgeulustod.
- Mae'r mwyafrif llethol o gyflawnwyr yn ddynion: ymhlith ymatebwyr i fodiwl cam-drin adeg plentyndod ATCL, dywedodd 92% mai dynion yn unig oedd wedi cyflawni, a 4% gan ddynion a menywod. Canfu arolwg cam-drin plant yr NSPCC hefyd fod y rhan fwyaf o gyflawnwyr yn ddynion, a bod y plentyn yn ei adnabod mewn rhyw ffordd.
- Cyflawnir troseddau treiddiol gan bobl sydd eisoes yn hysbys i'r dioddefwr, gydag aelodau'r teulu yn fwy cyffredin i ferched/menywod ifanc a ffigurau o awdurdod yn fwy cyffredin ar gyfer bechgyn/dynion ifanc. Ym modiwl cam-drin plant ATCL, roedd menywod wedi nodi tadau/llystadau (16%) ac aelodau eraill o'r teulu (30%) fel cyflawnwyr cam-drin treiddiol, a dynion sy'n goroesi cam-drin o'r fath wedi nodi ffigurau o awdurdod (16%).
- Nid yw'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc yn dweud wrth unrhyw un ar yr adeg maent yn cael eu cam-drin, ac mae llawer yn disgwyl nes eu bod yn oedolion. Yn arolwg camdriniaeth plant yr NSPCC, roedd pump allan o'r chwe chyfranogwr oedd wedi eu cam-drin yn rhywiol gan blentyn arall yn nodi nad oeddynt wedi dweud wrth neb, a nododd un rhan o dair o'r cyfranogwyr oedd wedi eu cam-drin yn rhywiol gan oedolyn nad oeddynt wedi dweud wrth neb. Ym modiwl cam-drin plant ATCL, gyda'r cyfranogwyr oedd bellach yn oedolion, nid oedd oddeutu un o bob pump oedd wedi profi CPRh wedi dweud wrth unrhyw un.
- Mae plant a phobl ifanc sy'n datgelu hyn yn llawer mwy tebygol o ddweud wrth ffrindiau neu deulu nag wrth unrhyw un mewn rôl broffesiynol. Darganfu modiwl camdriniaeth plentyndod y ATCL bod asiantaethau swyddogol wedi cael gwybod neu ddarganfod cam-drin mewn lleiafrif bach (o dan 10%) o achosion ar yr adeg yr oedd yn digwydd, ac mewn oddeutu chwarter o achosion yn ddiweddarach.
- Yn ôl modiwl y ATCL, y rhesymau mwyaf cyffredin dros beidio â dweud yw embaras, ofn peidio â chael eu credu, a chywilydd.

### *Bylchau sy'n weddill yn y dystiolaeth sylfaen*

- Nid ydym yn gwybod a yw nifer yr achosion o CPRh wedi cynyddu neu leihau dros amser yng Nghymru a Lloegr.
- Mae'r ddealltwriaeth o raddfa'r CPRh a gyflawnwyd gan rai dan 18 oed yn hynod o wael.
- Nid oes amcangyfrif o nifer yr achosion o CPRh a hwylusir ar-lein. Ymhellach, nid yw'n bosib hyd yma i fapio gweithgarwch ar-lein i'r hyn a wyddom am CPRh, i archwilio pa mor bell mae'r we yn gyd-destun penodol ar gyfer cam-drin a pha mor bell y mae ffurfiau o gam-drin rhywiol ar-lein wedi cynyddu niferoedd achosion o CPRh.
- Nid yw cam-drin gan gyflawnwyr lluosog na cham-drin gan gyflawnwyr dilynol wedi'i ddogfennu'n dda.
- Ni chafwyd unrhyw ymdrechion yng Nghymru a Lloegr i gynnal arolwg o barhad CPRh, er bod astudiaethau o'r fath wedi'u cynnal yn rhyngwladol.
- Mae diffyg data cyfres amser ac amrywiadau mewn dulliau methodoleg yn ei gwneud yn anodd archwilio a yw natur CPRh yn newid neu sut mae wedi newid; mae llawer o astudiaethau yn rhai untro, felly ni ellir dirnad tueddiadau dros amser; mae methodoleg a diffiniadau gwahanol yn gwneud cymariaethau ar draws astudiaethau yn broblemus; ac yn aml mae'r gwahaniaethau rhwng y ffurfiau (y gweithredoedd cam-drin rhywiol) a'r cyd-destunau (nid yn unig berthynas y dioddefwr â'r cyflawnwr, ond hefyd y broses o gaethiwo/pwynt cyswllt cyntaf a'r lleoliad) y cam-drin.

## Yr hyn a wyddom o astudiaethau cyffredinrwydd

### *Graddfa cam-drin plant yn rhywiol*

Mae data swyddogol yn tanamcangyfrif maint y CPRh yn sylweddol oherwydd:

- bod rhan fwyaf o gam-drin plant yn rhywiol yn parhau i fod yn guddiedig ac nid yw'n cael ei adrodd i, neu ei ddatguddio gan, asiantaeth swyddogol – neu nid yw'n cael ei adrodd nes bod y dioddefwr yn oedolyn
- nad yw pob achos tybiedig o CPRh yn cael ei gofnodi, ac nad yw pob achos a gofnodir yn weladwy yn y data a gyhoeddir: mae hyn yn berthnasol i ddata cyfiawnder troseddol ac amddiffyn plant
- bod arferion cofnodi'n amrywio'n fawr ar draws asiantaethau, ar draws ardaloedd daearyddol a thros amser.

### Gwasanaethau plant awdurdod lleol

- Dim ond darlun rhannol o bryderon CPRh sy'n cael ei adnabod trwy ddata amddiffyn plant yn y system amddiffyn plant. Mae'r data'n dangos, er bod gwasanaethau plant awdurdodau lleol yn Lloegr wedi nodi bod 30,460 o blant mewn perygl CPRh yn 2019/20, roedd llai na 9% (2,600) wedi cael ei gofnodi o dan y categori hwn o gam-drin ar gynllun amddiffyn plant.
- Mae nifer y plant sydd wedi eu rhoi ar gynllun amddiffyn plant am CPRh yn Lloegr, ac ar y gofrestr amddiffyn plant yng Nghymru, wedi gostwng o 60% dros yr ugain mlynedd diwethaf, er bod nifer cyffredinol y plant ar gynlluniau/gofrestr wedi dyblu dros yr un cyfnod.

> Nododd awdurdodau lleol Lloegr fod 30,460 o blant mewn perygl o CPRh yn 2019/20, ond dim ond 2,600 o blant a roddwyd ar gynllun amddiffyn o dan y categori cam-drin hwn

- Mae'r data diweddaraf sydd ar gael (2019/20) yn dangos gostyngiad pellach o 12% yn nifer y cynlluniau amddiffyn plant sy'n gysylltiedig â CPRh yn Lloegr, y gostyngiad mwyaf sydyn mewn 18 mlynedd. Dim ond 4% o'r holl gynlluniau amddiffyn plant yn Lloegr a chofrestriadau amddiffyn plant yng Nghymru sydd o dan y categori cam-drin rhywiol.
- Awgryma hyn bod newid yn y ffordd y caiff CPRh ei adnabod a/neu ei gofnodi gan y gwasanaethau i blant, gan nad yw'r gostyngiad mewn cynlluniau/ cofrestriadau amddiffyn plant sy'n gysylltiedig â CPRh yn cael ei adlewyrchu mewn mesuriadau eraill o raddfa'r CPRh yng Nghymru a Lloegr.
- Mae cyfraddau cynlluniau/cofrestriadau amddiffyn plant a risg CPRh yn amrywio'n sylweddol yn ôl awdurdod lleol. Nid yw'r rhesymau dros yr amrywiad hwn yn glir.

## Asiantaethau cyfiawnder troseddol

Ceir darlun tameidiog ond cyson gan ddata cyfiawnder troseddol o raddfa achosion CPRh sy'n mynd drwy'r system. Wedi blynyddoedd o gynnydd mewn cofnodi troseddau CPRh a diffynyddion a erlynwyd, mae'r niferoedd hyn wedi lefelu allan:

- Ar draws Cymru a Lloegr, cofnodwyd 87,992 o droseddau gan yr heddlu yn 2019/20, ychydig yn llai na'r flwyddyn flaenorol. Nid yw'n bosib amcangyfrif i ba raddau mae hyn yn adlewyrchu'r patrymau newidiol o droseddau'r gorffennol yn erbyn troseddau CPRh presennol.
- Roedd troseddau yn erbyn plant yn cyfrif am fwy na hanner yr holl droseddau rhywiol a gofnodwyd gan yr heddlu: yn 2019/20, roedd 48% o droseddau rhywiol yn erbyn merched yn erbyn plant o dan 18 oed, a 65% o droseddau rhywiol yn erbyn dynion dan 18 oed.
- Roedd cyfradd fechan o ymchwiliadau i droseddau CPRh (12%) wedi'u cwblhau gyda phenderfyniad i gyhuddo troseddwr/wyr yn 2019/20; roedd y raddfa gyhuddo wedi gostwng yn sylweddol 37% o chwe blynedd ynghynt.
- Mae cyfraddau cyhuddo yn amrywio yn ôl y drosedd: yn 2019/20, 'cam-drin trwy gam-fanteisio rhywiol' a meithrin perthynas amhriodol yn rhywiol' oedd â'r gyfradd uchel, o 23% a 15% fel ei gilydd, gyda dim ond 6% o droseddau yn ymwneud â 'threisio plentyn benywaidd o dan 16 oed' neu 'weithgaredd rhywiol gyda phlentyn dan 13 oed' yn cael eu cyhuddo.
- Erbyn 2019/20, roedd nifer y diffynyddion a erlynwyd am droseddau CPRh wedi gostwng mwy nag un rhan o dair ers ei anterth yn 2016/17.
- Cofnododd yr holl system llysoedd gyfanswm o 6,387 o erlyniadau a 4,870 o euogfarnau am droseddau CPRh yn 2019/20. Wrth i nifer yr erlyniadau ostwng, mae nifer yr euogfarnau wedi codi i 76% yn 2019/20.
- Roedd mwyafrif helaeth y diffynyddion yn ddynion (99%) o gefndir ethnig Gwyn (92%) yn 2019/20.
- Mae cyfraddau troseddau CPRh, cyhuddiadau ac euogfarnau i gyd yn amrywio yn ôl ardal leol.

## Asiantaethau Iechyd

Nid yw Asiantaethau Iechyd yng Nghymru a Lloegr yn cyhoeddi unrhyw ddata sy'n ymwneud â CPRh, ond cesglir rhywfaint o ddata yn rheolaidd. Casglwyd y data canlynol yn dilyn ceisiadau data:

- Yn Lloegr yn ystod 2019, ymwelodd plant a phobl ifanc dan 18 oed â chlinigau iechyd rhywiol 1,382 o weithiau a gwelwyd tystiolaeth o ymosodiadau rhywiol 'acíwt' neu 'ddim yn acíwt'.
- roedd 6,051 o blant a phobl ifanc dan 18 oed mewn cyswllt gyda chanolfan atgyfeiriadau ymosodiadau rhywiol yn Lloegr yn 2019/20 a 620 o blant a phobl ifanc yng Nghymru.

Mae cyfradd y pryderon CPRh a gofnodwyd yn y setiau data iechyd hyn yn isel o'i gymharu â chyfradd y troseddau CPRh a adroddir i'r heddlu.

### *Natur y cam-drin rhywiol*

- Mae'r mwyafrif llethol o'r rhai a nodwyd sy'n cyflawni CPRh yn ddynion: yn 2019/20 roedd dynion yn cyfrif am 99% o ddiffynyddion a erlynwyd am droseddau CPRh.
- Mae merched a menywod ifanc yn llawer mwy tebygol na bechgyn a dynion ifanc i gael eu hadnabod fel dioddefwyr CPRh: roedd 60% o blant ar gynllun amddiffyn plant o dan y categori cam-drin rhywiol yn Lloegr yn fenywod yn 2019/20, a'r ffigwr cymharol yng Nghymru oedd 57%. Cofnodwyd cyfraddau uchel iawn o fenywod yng nghofnodion gwasanaeth iechyd (93% o ddefnyddwyr clinigau iechyd rhywiol o dan 18, ac 85% o rai dan 18 yn defnyddio'r canolfannau atgyfeiriadau ymosodiadau rhywiol), gan awgrymu bod y gwasanaethau hyn yn llai tebygol o allu cyrraedd bechgyn a dynion.
- Mae plant o gefndiroedd Gwyn yn cael eu gorgynrychioli mewn ffeiliau achos asiantaethau swyddogol. Lle cofnodwyd ethnigrwydd, roedd dros dri chwarter y plant ar gynllun amddiffyn plant o dan gategori cam-drin rhywiol o 2019/20 o gefndiroedd ethnig Gwyn, roedd 82% yn mynychu clinigau iechyd rhywiol ac 87% yn mynychu canolfannau atgyfeiriadau ymosodiadau rhywiol; yn Ionawr 2020, roedd 73% o boblogaeth ysgolion gwladol Lloegr yn dod o gefndir gwyn. Tangynrychiolir plant Asiaidd yn arbennig mewn setiau data asiantaeth. Dylid nodi fodd bynnag, nad yw ethnigrwydd plant yn cael eu cofnodi yn gyffredinol mewn data asiantaeth.

### *Bylchau sy'n weddill yn y dystiolaeth sylfaen*

- Nid yw data cyfiawnder troseddol yn darparu mesur cywir o faint o ddioddefwyr sy'n cael eu hadnabod.
- Nid yw proffiliau dioddefwyr a throseddwyr, ar wahân i rywedd, yn cael eu cofnodi'n gyson gan asiantaethau swyddogol.
- Nid yw data ar gyd-destun y cam-drin – er enghraifft, perthynas y tramgwyddwyr â'r dioddefwyr, lleoliadau camdriniaeth a hyd y gamdriniaeth – ar gael mewn data swyddogol.
- Nid ydym yn gwybod beth sy'n gyrru'r amrywiad lleol wrth nodi a chofnodi CPRh.

> Yn 2019/20, arweiniodd 12% o ymchwiliadau troseddau CPRh at benderfyniad i gyhuddo troseddwr/wyr; chwe blynedd yn gynharach roedd y ffigur wedi bod yn 37%

## Yr hyn a wyddwn o linellau cymorth a llinellau ffôn

- Mae sefydliad yr Internet Watch Foundation yn derbyn nifer fawr o adroddiadau am ddeunyddiau CPRh ar-lein, ac mae'r niferoedd yn cynyddu: cafwyd mwy na 130,000 o adroddiadau yn 2019, gydag un ymhob pump yn cynnwys deunyddiau yn dangos trais rhywiol neu artaith rywiol.
- Roedd tua hanner y plant mewn deunydd CPRh yn ymddangos rhwng 11-13 oed, gyda 92% yn fenywod.
- Cysylltodd 5,900 o geiswyr cymorth â'r llinell gymorth Stop It Now! yn 2019, un ai oherwydd eu bod yn bryderus am eu meddyliau rhywiol eu hunain, eu hymddygiad neu deimladau tuag at blant, neu eu bod yn bryderus am rywun arall.
- Cyflwynodd gwasanaeth Childline yr NSPCC, 7,679 p sesiynau cwnsela am gam-drin rhywiol (cam-drin cyswllt neu gam-drin ar lein) yn 2019/20. Roedd nifer y sesiynau hyn a gyflwynwyd yn y flwyddyn ganlynol wedi gostwng 22% – gyda gostyngiad cyffredinol o 14% mewn sesiynau cwnsela yn rhannol o ganlyniad i bandemig COVID-19 – ond cam drin rhywiol oedd y math mwyaf cyffredin o gam-drin y cyflwynwyd sesiynau cwnsela yn ei gylch.
- Rhwng 2019/20 a 2020/21, cafodd llinell gymorth yr NSPCC gan oedolion oedd yn mynegi pryder am blant 44% yn fwy o gysylltiadau ynglŷn â cham-drin rhywiol ar-lein a 2% yn fwy ynglŷn â cham-drin rhywiol.

## Symud ymlaen

Daw'r adolygiad hwn i'r casgliad bod bylchau sylweddol yn parhau yn yr hyn a wyddom am raddfa a natur CPRh yng Nghymru a Lloegr. Mae angen parhaus i wella data am nifer yr achosion o CPRh – y gellid ei gyflawni orau drwy arolwg CPRh pwrpasol – a gwella'r ffordd y mae asiantaethau'n casglu, yn cofnodi ac yn cyhoeddi data ar CPRh. Ond er bod gwelliannau i'r systemau sy'n casglu'r data yn bwysig, ni ellir gwahanu'r data oddi wrth y bobl sy'n ei greu a'r diwylliant y maent yn gweithio ynddo. Felly, mae angen parhaus ar gyfer hyfforddiant estynedig a chefnogaeth i weithwyr proffesiynol ar draws pob asiantaeth i'w harfogi gyda'r wybodaeth a'r hyder angenrheidiol er mwyn amddiffyn plant trwy adnabod pryderon am CPRh a'u cofnodi'n briodol mewn systemau data.

Gellir lawrlwytho fersiwn Saesneg o'r adroddiad cyflawn yn
**www.csacentre.org.uk/our-research/the-scale-and-nature-of-csa/measuring-the-scale-and-nature-of-csa/**

Dyma argraffiad diwygiedig o'r adolygiad o dystiolaeth *Measuring the scale and changing nature of child sexual abuse and child sexual exploitation* gan y Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol, a argraffwyd yn wreiddiol yn 2017 ac a ddiweddarwyd yn 2018. Mae pob adran wedi ei diweddaru gyda data a gwaith ymchwil newydd.

## Am yr awduron

Mae Kairika Karsna yn uwch-swyddog ymchwil a gwerthuso yn y Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol. Mae ei gwaith yn canolbwyntio ar wella dealltwriaeth ar raddfa a natur cam-drin plant yng Nghymru a Lloegr.

Mae Liz Kelly yn Athro mewn Trais Rhywiol ym Mhrifysgol Fetropolitan Llundain, ac roedd yn rhan o dîm a gyhoeddodd astudiaeth cyffredinedd archwiliadol o gam-drin plant yn rhywiol yn 1991.

## Gair am y Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol

Mae'r Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol (Canolfan CPRh) yn dymuno gweld plant yn cael byw'n rhydd rhag bygythiad a niwed cam-drin rhywiol. Ein nod yw lleihau effaith cam-drin plant yn rhywiol drwy gamau atal gwell ac ymateb gwell.

Rydym ni'n dîm amlddisgyblaethol, sy'n cael ei ariannu gan y Swyddfa Gartref a'i gynnal gan Barnardo's, ac rydym yn gweithio'n agos â phartneriaid allweddol o sefydliadau academaidd, awdurdodau lleol, iechyd, addysg, yr heddlu a'r sector gwirfoddol. Fodd bynnag, rydym ni'n annibynnol a byddwn yn herio unrhyw rwystrau, rhagdybiaethau, tabŵau a ffyrdd o weithio sy'n ein hatal rhag cynyddu ein dealltwriaeth a gwella ein hagwedd at gam-drin plant yn rhywiol.

Er mwyn mynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol, mae'n rhaid i ni ddeall beth sy'n ei achosi, ei gwmpas, graddfa ac effaith. Gwyddom lawer am gam-drin plant yn rhywiol ac rydym wedi gwneud cynnydd i ymdrin â hyn, ond mae nifer o fylchau yn ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o hyd sy'n cyfyngu pa mor effeithiol yr eir i'r afael â'r mater.

Tynnwyd y llun sydd ar y clawr drwy ddefnyddio actorion ac nid yw'n dangos sefyllfa go iawn.

Barnardo House, Tanners Lane, Barkingside, Ilford, Essex IG6 1QG
E: info@csacentre | @csacentre
**www.csacentre.org.uk**

22276shc21